

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

## Newid dyddiad – tynnu lluniau Tempest

Mae'r ffotograffydd wedi cysylltu i ymddiheuro y bydd rhaid i ni newid y dyddiad ar gyfer tynnu lluniau unigolion a theluoedd y tymor hwn. Y dyddiad newydd yw **Dydd Gwener y 10fed o Dachwedd 2023**. Ymddiheuriadau am unrhyw anghyfleustra mae hyn yn ei achosi.

## Diwrnod Jeans ar gyfer Genes

Er mwyn cefnogi'r digwyddiad hwn eleni, gwahodddwn y plant i wisgo jîns neu ddenim i'r ysgol am y dydd, ar **ddydd Mawrth y 19eg o Fedi!** Derbynnir unrhyw gyfraniad, bach neu fawr, ar gyfer y digwyddiad.

## Cogurdd

Cynhelir y rownd gyntaf o Cogurdd yn yr ysgol yn ystod **Clwb yr Urdd 3:30 – 4:30yp ar ddydd Mercher y 27ain o Fedi**. (bydd gwahoddiad i flwyddyn 5 sy'n dymuno cystadlu yn Cogurdd i ddod y noson honno hefyd)


Ddim yn siŵr beth yw Cogurdd? Wel, cliciwch [yma](#) i ddarganfod mwy, a bydd gwybodaeth ar wahân yn cael eu hanfon at rieni bl.4-6 heddiw yn cynnwys y rseyt a'r rheolau.

## PC Hannah – Schoolbeat

Byddwn yn derbyn sesiynau gan PC Hannah Evans eto eleni ar gyfer cyfoethogi'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Bydd PC Hannah yn ymweld â disgyblion Bl.1-6. Cadwch lygad ar Negeseuon yr Wythnos ar y wefan i wybod pryd fydd hi'n mynychu dosbarth eich plentyn chi.


## X (Twitter gynt)

Byddwch wedi sylwi fod tipyn o newidiadau wedi bod i'r plattform hwn ers iddo newid i X. Yr effaith bennaf arnom ni yw eich anallu chi fel rhieni i weld ein newyddion drwy'r wefan (oni bai eich bod wedi mewngofnodi i X eich hunain) Gweler y dudalen isod er mwyn gweld enghraifft. Yn anffodus mae hwn tu hwnt i'n rheolaeth, oni bai i'r plattform newid ei reolau eto cyn hir!



< heb fewngofnodi  
i X (Trydar)

ar ôl mewngofnodi  
i X (Trydar) >



## Twtio a chymhennu'r ysgol

Yn ystod yr hanner tymor hwn byddwn yn ceisio adnabod dau fore /prynhawn Sadwrn sych ar gyfer gofyn am eich cymorth i dwtio a chymhennu ardaloedd yr ysgol drwy beintio meinciau a chabanau. Mi gysylltw'n â chi eto pan fydd dyddiadau wedi eu dewis.

## Y Gymraeg

Mae'r ymateb i'r neges yn Llythyr y Pennaeth wythnos ddiwethaf wedi bod yn bositif iawn. Mae nifer o rieni a phlant wedi sôn iddynt wyllo mwy o deledu plant Cymraeg yn y boreau cyn dod i'r ysgol er mwyn dod i'r arfer â chlywed a siarad Cymraeg. Gwych iawn! Dyma'r neges a rannwyd wythnos diwethaf eto, er gwybodaeth:

Un o flaenoriaethau'r ysgol eleni yw *i wella medrau llafar Cymraeg a gwranddo'r dysgwyr mewn sefyllfaoedd cymdeithasol*. Deallwn fod ein disgyblion yn dod o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad, neu mond yn cael ei siarad ychydig, a'n bwriad yw i roi cymaint o gefnogaeth â phosib i gynorthwyo'r plant i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 6. Yn yr ysgol rydym wedi derbyn hyfforddiant Llais 21 ar lefel staff ysgol gyfan er mwyn ein cynorthwyo i wireddu'r flaenoriaeth yma, a gofynnwn am eich cydweithrediad chi fel rhieni a gwarcheidwaid hefyd wrth i ni geisio cyrraedd y nod. Yn dilyn syniad a gynigwyd drwy'r holiadur i rieni, byddwn yn rhannu dolenni gyda chi er mwyn eich cynorthwyo i hybu'r Gymraeg adref. Yr wythnos hon, hoffwn rannu'r dolenni yma gyda chi:

- [Cefnogi eich plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg gartref](#)
- [Amserlen Teledu S4C yn cynnwys rhaglenni Cyw a Stwnsh](#)

Byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn medru dod o hyd i amser i ddarllen y cynnwys uchod, a rhoi cyfle i'ch plant wyllo teledu Cymraeg S4C yn fyw, neu ar adalw S4C/Clic arlein.

(Mae rhaglenni plant S4C yn cychwyn am 6 o'r gloch y bore! Gwych ar gyfer y plantos bach sy'n deffro'n gynnar!)

## Diwrnod Rhyngwladol

Cynhelir y Diwrnod Rhyngwladol eleni ar **ddydd Gwener, Hydref 13eg** – gwahoddir disgyblion i ddod i'r ysgol mewn gwisgoedd sy'n cynrychioli'r wlad y byddant yn ei hastudio;

Meithrin	Cymru
Derbyn	Yr Alban
Blwyddyn 1	Siapan
Blwyddyn 2	Yr Eidal
Blwyddyn 3	Yr Almaen
Blwyddyn 4	Ffrainc
Blwyddyn 5	Yr Ariannin
Blwyddyn 6	India



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## Dyddiadau pwysig

Dyddiad newydd ar gyfer tynnu lluniau unigolion a theuluoedd : Tachwedd 10fed yn Neuadd yr Ysgol

Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 13eg yn y Neuadd Fawr;

Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig ar ddydd Iau y 21ain o Ragfyr am 3:30yp.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro, 15/09/2023

[www.ysgolgybraeg.cymru](http://www.ysgolgybraeg.cymru)



### **The School Spruce-up!**

During this half term we will try to identify two dry Saturday mornings/afternoons to ask for your help to spruce up the school areas by painting benches and cabins etc. I will contact you again when dates have been chosen.

### **The Welsh language**

The response to the message in the Headteacher's Letter last week has been very positive. A number of parents and children have mentioned that they watch more Welsh children's television in the mornings before coming to school in order to get used to hearing and speaking Welsh. Excellent! Here is the message shared last week again, for your information:

One of the school's priorities this year is to **improve the learners' Welsh speaking and listening skills in social situations**. We understand that our pupils come from homes where Welsh is not spoken, or only spoken a little, and our intention is to give as much support as possible to help the children to be fully bilingual by the time they leave school at the end of Year 6. At the school we have received Voice 21 training as whole school staff to assist us with this priority, and we ask for your cooperation as parents and guardians as well as we try to reach this goal. Following an idea proposed through the questionnaire to parents, we will share links with you to help you promote the Welsh language at home. This week, I'd like to share these links with you:

- [Supporting your child to use the Welsh Language at home](#)
- [S4C TV Schedule including Cyw and Stwnsh programmes](#)

We would appreciate it if you could find time to read the content above and give opportunities for your children to watch S4C Welsh television live, or on S4C/Clic online catch-up.

(S4C children's programs start at 6 o'clock in the morning! Great for the little ones who wake up early!)

### **International Day**

This year's International Day is held on **Friday, October 13th** - pupils are invited to come to school in costumes that represent the country they are studying:

Meithrin	Wales
Derbyn	Scotland
Year 1	Japan
Year 2	Italy
Year 3	Germany
Year 4	France
Year 5	Argentina
Year 6	India



### **Half Term Calendar**

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.

### **Important dates**

New date for photographing individuals and families: November 10th in the School Hall

Christmas Concert: December 13th in the Great Hall;

Closing for the Christmas holidays on Thursday 21st December at 3:30pm.

**If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.**

**Yours sincerely,**

**Gareth L James**

**Acting Headteacher, 15/09/2023**

[www.ysgolgybraeg.cymru](http://www.ysgolgybraeg.cymru)